**Diweddariad - Prosiectau seilwaith mawr**

## Diben

1. Mae'r papur i'w nodi yn ymateb i gais gan Aelodau'r Cyngor i ddarparu diweddariad ar statws y prosiectau seilwaith mawr canlynol:

   - Morlyn Llanw Bae Abertawe;
   - Wylfa Newydd;
   - Trydaneiddio'r rheilffyrdd;
   - Metro;
   - Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

## Cyd-destun

2. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r papur hwn i'w nodi ar gais Cyngor Datblygu'r Economi. Mae'r Cyngor wedi gofyn am ddiweddariad ar brosiectau seilwaith mawr yng Nghymru.

## Argymhelliad

3. Mae Cyngor Datblygu'r Economi yn nodi cynnwys y papur hwn.

## Morlyn Llanw Bae Abertawe

4. Ar 12 Ionawr, cyhoeddodd yr Adolygiad Annibynnol o Forlynnoedd Llanw ei adroddiad (Adroddiad Hendry). Roedd Adroddiad Hendry yn gam cadarnhaol ymlaen ar gyfer prosiect Morlyn Llanw arfaethedig Bae Abertawe ac yn cefnogi'r achos dros ddatblygu diwydiant ynni morlyn llanw yn y DU, ac rydym yn aros am ymateb Llywodraeth y DU.

5. Roedd Adroddiad Hendry yn cydnabod y prosiectau sydd eisoes yn cael eu datblygu o gwmpas arfordir Cymru ac yn nodi bod achos busnes cadarn iawn dros brosiect braenaru ar raddfa fach (llai na 500MW) cyn gynted ag y mae'n ymarferol resymol.

6. Fodd bynnag, mae angen nifer o gymeradwyaethau allweddol o hyd gan yr awdurdodau perthnasol, sef:

   - cadarnhad y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cymorth ariannol, drwy "bris penodedig" Contract Gwahaniaeth;
   - trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
   - prydles gan Ystad y Goron; a
   - diwygiad i brosesau Awdurdodau Cynllunio Lleol i ganiatáu rhyddhau amodau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau brwd â Tidal Lagoon Power Ltd am brosiect arfaethedig Bae Abertawe ers rhai blynyddoedd. Mae'r trafodaethau'n parhau mewn meysydd amrywiol er

mwyn gofalu bod busnesau Cymru a'r economi leol mewn sefyllfa i gael y budd mwyaf posib o'r prosiect pe bai'r awdurdodau perthnasol yn rhoi'r cymeradwyaethau angenrheidiol.

**Wylfa Newydd**

8. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi prosiect Wylfa Newydd sy'n werth £12 biliwn fel blaenoriaeth ar gyfer y llywodraeth hon. Mae'n brosiect seilwaith strategol pwysig a fydd yn helpu i greu swyddi o ansawdd uchel ynghyd â chynnig potensial pwysig ar gyfer dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru.

9. Ar 24 Mai, lansiodd Horizon drydydd cam ei ymgynghoriad cyn ymgeisio (PAC3) ar ei gynlluniau diwygiedig ar gyfer Wylfa Newydd. Darparodd Llywodraeth Cymru ei hymateb llawn i'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 22 Mehefin.

10. Mae Horizon Nuclear Power wedi nodi ei fwriad i gyflwyno ei Gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ym mis Awst 2017, ac mae'r archwiliad cyhoeddus i'r cynigion yn debygol o ddechrau ym mis Ionawr 2018. Mae disgwyl i'r caniatâd cynllunio gael ei roi tua diwedd 2018. Mae Horizon yn bwriadu gwneud eu Penderfyniad Buddsoddi terfynol tua canol-diwedd 2019.

11. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Horizon Nuclear Power, i drafod dulliau o sicrhau'r manteision mwyaf posib a lliniaru effeithiau a nodwyd o Brosiect Wylfa Newydd.

**Trydaneiddio'r rheilffyrdd**

<u>Trydaneiddio'r Gogledd</u>

12. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi trydaneiddio Prif Reilffordd y Gogledd rhwng Crewe a Chaergybi a chyflwynodd ei hachos busnes sy'n cyfiawnhau'r buddsoddiad i Adran Drafnidiaeth y DU yn 2015.

13. Mae awdurdodau lleol a busnesau yn y Gogledd a thros y ffin wedi nodi eu gofynion o ran gwell gwasanaethau rheilffordd a buddsoddi mewn seilwaith ym mhrosbectws Growth Track 360. Trydaneiddio'r brif reilffordd yw eu nod yn y pen draw.

<u>Trydaneiddio Prif Reilffordd y De</u>

14. Mae disgwyl i'r gwaith o drydaneiddio i Gaerdydd gael ei gwblhau gyda gwasanaethau'n gweithredu yn 2019. Bydd hwn yn gam enfawr ymlaen i greu gwasanaeth trenau modern ar gyfer cefnogi twf economaidd ledled Cymru.

15. Bydd y prosiect i drydaneiddio o Lundain i Abertawe yn ein galluogi i symud ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer moderneiddio llinellau'r Cymoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi pwysau ar lywodraeth

y DU am gadarnhad o amseriad yr ymrwymiad hwn, gan bwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth amserol i sicrhau ein bod yn cael y cyfle i'w hystyried fel rhan o'n gwaith cynllunio seilwaith a masnachfraint ein hunain.

**Metro**

Y Gogledd a Metro'r Gogledd-ddwyrain

16. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Symud Gogledd Cymru Ymlaen – Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru' ar 2 Mawrth. Rydym yn buddsoddi £50 miliwn yn y gwaith o ddatblygu'r weledigaeth honno dros y pedair blynedd nesa.

17. Yr amcan yw cyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Metro'r Gogledd-ddwyrain, gan weithio gyda phartneriaid ar y naill ochr i'r ffin a'r llall i greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig a chynaliadwy sy'n cysylltu pobl, cymunedau a busnesau â swyddi, gwasanaethau, cyfleusterau a marchnadoedd.

18. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ymyriadau posibl amrywiol ar gyfer y tymor byr, canolig a hirach, i wella cysylltedd ar draws y rhanbarth i gyd a sicrhau manteision mwyaf posibl cysylltedd dros y ffin i Loegr, Iwerddon a thu hwnt.

Metro y De

19. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Metro law yn llaw â datblygu contract newydd ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Bydd y Metro yn system drafnidiaeth integredig, amlfodd fodern o ansawdd uchel a fydd yn cysylltu cymunedau a gwella cysylltedd ar draws Cymru i weddill y DU ac Ewrop.

20. Yng Ngham 1 y Metro, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn buddsoddi gwerth £77 miliwn o welliannau seilwaith eisoes. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith deuoli rhan o reilffordd Glyn Ebwy rhwng Cross Keys ac Aber-bîg.

21. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n caffael gweithredwr a phartner cyflawni ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a'r Metro (sef Cam 2 y Metro). Bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar foderneiddio Llinellau craidd y Cymoedd a rhwydwaith rheilffyrdd ehangach y De. Bydd y gwaith seilwaith hwn yn cael ei integreiddio â darpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

22. Bydd Cam 3 y Metro yn cynnwys estyniadau i reilffyrdd yn y dyfodol a mesurau pellach i integreiddio bysys i ymestyn cyrhaeddiad y Metro i gyflawni rhwydwaith rhanbarthol gwirioneddol gydgysylltiedig.

23. Mae'r £1 biliwn a mwy a fydd yn cael ei wario ar drydaneiddio, y Metro a seilwaith rheilffyrdd yn cynnig cyfleoedd pwysig i ni. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall weithio gyda phartneriaid cyflawni i sicrhau bod mwy o fanteision y gwariant hwn yn aros mewn cymunedau lleol a chadwyni cyflenwi lleol.

**Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd**

24. Mae Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei gynnal i Brosiect arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd, a'i fesurau lliniaru amgylcheddol cysylltiedig.

25. Mae proses yr Ymchwiliad yn caniatáu gwaith craffu agored a chadarn gan arolygwyr annibynnol i benderfynu a yw'r Prosiect arfaethedig yn ateb cynaliadwy a hirdymor i'r problemau difrifol sy'n gysylltiedig â'r porth hwn i Gymru.

26. Bydd canlyniad yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn llywio'r penderfyniad terfynol ynglŷn â mynd ymlaen â'r gwaith adeiladu ai peidio. Yn amodol ar ganlyniad yr ymchwiliad, gellid dechrau ar y gwaith adeiladu yn ystod haf 2018.